# TAIR O GERDDI DIDDAN:

SEF

YMDDIDDAN RHWNG Y SARPH A'R GOLOMEN,

CYWYR YN ERBYN MEDDWYR,

YMDDIDDAN RHWNG DWY CHWAER.

---

Y MWYTHIG: ARGRAFFWYD 1767.

# YMDDIDDAN,

RHWNG

# Y SARPH a'r GOLOMMEN.

*Sarph.* DYDD da fo i'r Glommen lawen heini,
Heden ysgafn, aden wisgi.
*Clom.* Dydd da fo i tithe'r Sarph ddolennog,
Sydd ar ei Thorr yn swysfil ofnog.
*Sarph.* Myfi ydyw'r doetha o bob creadur,
A luniodd Duw wrth ryw ei natur;
Er bod *Adda* ag *Efa*'n gyfrwys,
Myfi au twyllais nhwy ymharadwys.
*Clom.* Na wna mor bôst o waith dy bechod,
Yn denu Dyn i'r Pwll di waelod;
A pheth a 'nillaist ti wrth dy amcan,
Ond cael figo'th fiol dy hunan?
*Sarph.* Mi 'nillais Feddiant a Llywodraeth,
Ynghalon *Adda* ai holl Hiliogaeth;
Hen Nyth y G'lommen aur ei hasgell,
Dyna'r fan lle mae fy nghastell.
*Clom.* Trwy dy Dwyll a thrwy dy wenieth,
Trwy dy Ragrith a'th Hudolieth;
Trwy dy Gelwydd a'th Dichellion,
Yr aethost di a'm Treftadaeth gyfion.
*Sarph.* Yn gelwyddog pam i'm gelwi,
Ond gwir a ddweydais i wrth y rheini;
Y bydde iw Llygaid gael eu hageryd, *Gen.* 3, 5.
Os bwytaen nhw o Bren y Bywyd.

*C.* Di ddweydaiſt ti na fyddent feirw, *y 4 adn.*
Ond Celwydd hynod ydyw hwnnw?
Nid yw dy wir di ddim ond Eſcus,
I ddweydyd Celwyddd wrth ei Yſtlys.
*Sarph.* Os wyfi'n dweydyd ymbeil Celwydd,
I dwyllo Dynion angyfarwydd;
Mi ga fy nghoelio'n gynt gan fagad,
Na thi, ſy'n dweyd y gwir yn waſtad.
*Clom.* Digon gwir yw'r Geiriau rheini,
O ſywaith, fel mae'n fawr drueni;
Ond gwir ei hun raid imi gadw,
Pedfae heb neb yn coelio hwnnw.
*Sarph.* Wel, dywed imi gwir yn eglur,
Am Blant Dynion wrth eu Natur;
Ym mha Gyflwr o drueni,
Y mae Dyn yn cael ei eni?
*C.* Fel hyn y genir dyn y baban, *Rhuf.* 5. 12.
Dan Ddigofaint Duw yn gyfan; *Job* 14. 4.
Ar ddelo Diafol yn Wâs i Bechod, *Sal.* 51. 5.
Ac yn Etifedd Uffern iſod. *Ioan*, 3. 6.
*S.* Wel pa ryw famaeth a dy goelie, *Eph.* 2. 3.
A dawe yw phlentyn ſugno ei bronnie?
Mae'n harddach iti ddweydyd Celwydd,
Na dweydyd gwir o gymaint Gwradwydd.
*Clom.* Dyna Reſwm anyſtyriol,
Nid anhaws gan un Famaeth dduwiol
Garu ei Phlentyn ai Hanwylyd,
A chredu'r gwir am dano hefyd.
*Sarph.* Pa ryw hyd erys Dynion,
Tan Ddigofaint a Melldithion?

Tan Gondemniad Barn y Gyfreth,
A'i hên Galonnau'n llawn Gelynnieth.
*C.* Hyd oni enir hwy o newydd, *Ioan*, 3. 3.
Trwy ei hail genhedlu ynghorph yr Arglwydd,
Hydoni nwydier eu Naturiaeth, *ar 5 adn. Eph.* 5. 30.
Trwy Fedydd Crist a'i Ysbrydoliaeth. *Mat.* 3. 11.
*Sarph.* Mae llai na hynny o waith yn ddigon,
Ei wneuthyr Dŷn yn gywir Gristion;
Rhy ddysn a manwl yr wyt di'n myned,
Geill rhai amhwyllo wrth fynd cymhelled.
*Clom.* Taw a siarad llais Rhagrithiwr,
I growni briw a gwaelod Pwdwr;
Mae troead Dyn mor bell yw gyfri,
A throi Tywyllwch yn oleuni. *Eph.* 5. 8.
*Sarph.* Er bod drwg weithredwyr creulon,
Fel Lladron câs a Thyngwyr meddwon,
Nid ydiw pawb o'r Byd yn pechu,
A rhaid ei troi mor bell o hynny.
*C.* Hardd deg i'madrodd braith ei ffedog,
Fel hyn dangosi 'th dorr flodeuog,
Och! mor guddiedig yw dy golyn,
Tan dy weniaeth mae dy wenwun. 2 *Cor.* 11. 14.
Pawb a bechodd ag a aethant, *Rhuf.* 3. 23.
Yn ol am gynydd Duw ai ogoniant,
Am hynny rhaid ei bawb ddychwelyd,
Ne fynd ymlaen i uffern danllyd.
*S.* Yr wyti fellu 'n rhoi 'r gonesta,
Tan 'r un pwnn ar lleidr penna,
Ba beth a ddweudi di am y tyngwr,
Nad yw na lleidr na rhagrithiwr.

*S.* Dangos etto i mi 'n Eglurach,
yn ymadel ath gyfeilliach?
a fodd y geill fod dŷn gyfion,
Heb Ddim daioni yn ei galon?
*C.* Pam y dweudaist di cen hyfed,
Mai di ydyw'r doetha o'r holl greduried,
Di fynni gael dy ddysgu rwan,
Gena fi greadur egwan.
*S.* Mi fym mi gynt mewn cyflwr gole,
Duw am gwnaeth mor ddoeth a thithe,
A Duw am trodd ir tywllwch eitha,
Am ddysgu drwg i rhai gwiriona.
*C.* Dangosa fi iti'r gwir yrwan
Ond nid ith disgu di dy hunan,
Ond fel y [illegible] ei ddysgu,
Yr hwn a ddysgaist dithe ei [illegible]
Mi welais air yn Sgrifenedig, *Luc.* 18. 19.
Nad oes yn dda ond Duw yn unig, *Joan* 1. 1.
A Duw yw 'r gair a wnaed yn (berffaith)
I Ddyn ei gadw grym y gyfraith, *Joan* 1. 14.
Hwn sy'n cyfiawn hau'r anuwiol, 1 *Pet.* 3. 18.
Hwn sy'n difa gwaith y diafol, 1 *Joan* 3. 8.
Yn y gwaetha o feibion dynion, *Eph.* 3. 17.
Os ceiff e feddiant yn ei calon. 1 *Joan* 5. 12
Ac oni cheiff y cyfion yma,
Le ynghalon meibion Adda,
Ni chân hwy byth mor nefoedd ole
Na gwared chwaith oth ysbryd dithe.
Yr un gair ar un gorchymyn,
A drodd yn gnawd ynghroth y forwyn,

Sy'n troi etto'n yſbryd bywiol, *Joan* 6. 63.
Ymhob calon Edifeiriol. 2 *Cor.* 3. 6.
Er bod y gair mewn ingc a phapur,
Yn ſgrifenedig yn y 'ſgrythyr,
Ni wna fo ddim lleſad i ddynion,
Ac yſpryd cythrel yn ei calon.
Y dyn ſy ai galon yn wag hebddo,
Mae hwn yn rhydd os bydd a'i Croeſo,
I dyngu a rhegu a galw'r cytherl,
Pei byddai Beibl tan ei geſel.
Ar dyn arall ai derbynio
Yn ei galon ag ai credo,
Mae hwn yn rhwym wrth y gorchmynion,
Pei bae heb feibl nês nar werddon.
Criſt yw'r Gair ar gaer yw'r bywyd,
A goleuni'r tâd ar yſbryd,
Sydd heb y gair ſydd heb y goron,
Ac heb ddim goleu yn ei galon.

*D.*

YN fy nghefn, mae gwewur yn rhoi arwydd delur dwus,
Ynghorph i gyd yn Crynnu, am Calon bach tan bwus,
A minna yn diodde iddi yr Acſſis ydyw'n hu,
Rhoes lawer un, i orwedd yn, llawr y ddaear ddu.
*C.* Fe aeth hynny yn orthrwn geni fod arna i'r fath fai,
Er imi Goſbi bagad y rwi yn pardynu rhai,
Llaw forwyn wyf i'r Angau ſy yn difa llawer Dun,
Fe heil yr holl Frenhinoedd oi Llyſoedd bod ag un.

D. Ond

*D.* Oud mawr na roi ti genad i ymgomio dipin bach,
A Ryddid i mi rodio am Corph i gyd yn iach,
Mi ffeiriwn ac oferedd a'r ffoledd gynt a fu,
Mewn Llann a phob Cynlieidfa er llonned y fae 'r llu.
*C.* Pydfawn i yn rhoi itti genad i rodio hud y Fro,
Ni chofit mo'ch addewid Gollyngit fi dros go,
Di eit yn ffol oferwr tra byddit yn y Bud,
Am hynny mi'th rho di orwedd mewn dauer fydd ar fud.
*D.* Pydfawn i wr Bonheddig a chini Bywer mawr,
Ni ddoi ti i'r fan lle byddwn nam llys i rodio'r llawr,
Cawn genit lonydd enud a rhydid yn y Bud,
Ni roi ti mono i orwedd mewn Daear fydder fud.
*C.* Ni ffriffiwn yn dy Bywar a'th wychdar ar dy farch,
Ni chei ti geni am hynnu un gronun mwy o barch,
Mi'th rown di yn gwla gelach i orwedd yn dy fedd,
I mado a'th holl reiolti mi eltrwn liw dy wedd.
*D.* Wrth glywed dy eiriau digllon mae nghalon yn gwunhau
My fi fy'n dyfal nychu, nid alla i hir barhau,
Ar Dduw mi ro fy ngweddi tro byddw i byw 'n Bud,
Cyn imi fynd i'r ddauer i orfedd ar fy hud.
*C.* Os wyti yn ddyn Difeiriol da fuddiol yw dy waith,
Cei fund i Deurnas Nefol Dedwyddol yw dy daith,
I Gwmni Duw 'n gariadus yn reunus iawn dy wedd,
Er bod dy Gorph yn gorwedd yn bryddedd yn y Bedd.

*TERFYN.*

